

SAFONAU'R IAITH GYMRAEG

ADRODDIAD BLYNYDDOL 2025/26

THIS REPORT IS ALSO AVAILABLE IN ENGLISH

Y SAFONAU A CHANOLFAN MILENIWM CYMRU

GOSOD Y CYD-DESTUN

Cyflwynwyd Safonau'r Gymraeg er mwyn darparu fframwaith cyfreithiol sy'n rhoi hawl i unigolion yng Nghymru dderbyn gwasanaethau penodol drwy gyfrwng y Gymraeg.

Ers mis Ionawr 2017, mae Safonau'r Gymraeg wedi bod yn berthnasol i ni.

Rydym bob amser wedi cymryd ein cyfrifoldeb tuag at gyflawni gwasanaethau dwyieithog o ddifri; mae'n dod yn naturiol i ni.

Mae darparu gwasanaethau yn Gymraeg i'n cwsmeriaid wedi bod yn hollbwysig i'r ffordd rydym yn gweithio ers y dechrau'n deg, ac rydym yn ymrwymo i gwrdd â gofynion y safonau.

Mae ein hymrwymiad i'r Gymraeg yn glir; byddwn yn hyrwyddo cyfleoedd i bobl ddefnyddio eu Cymraeg gyda ni ac yn gwneud yn siŵr nad yw'r iaith yn cael ei thrin yn llai ffafriol. Rydym yn falch o ddefnyddio'r Gymraeg.

Wrth ymweld â ni, gall ein cwsmeriaid ddisgwyl cael eu croesawu yn Gymraeg, a phan fyddwn yn ymgysylltu â'n cwsmeriaid, byddwn:

- **YN CYFATHREBU DRWY GYFRWNG Y GYMRAEG A'R SAESNEG**
- **YN PARCHU AC YN COFIO EU DEWISIADAU IAITH**
- **YN HYRWYDDO EIN SIOEAU A'N DIGWYDDIADAU YN DDWYIEITHOG**

Y SAFONAU

Mae ein Hysbysiad Cydymffurfio yn gofyn i ni gydymffurfio â chyfanswm o 146 o safonau, sy'n ymdrin â'r ffordd rydym yn darparu gwasanaethau i'r cyhoedd, ein perthynas gyda'n staff a sut rydym yn ystyried yr iaith yn ein penderfyniadau polisi.

Ceir rhagor o wybodaeth am y safonau hyn yma.

DAN Y CHWYDDWYDR: EIN PERTHYNAS GYDA CHI

Mae'r Safonau Cyflenwi Gwasanaethau yn egluro pa wasanaethau y mae angen i ni eu darparu'n ddwyieithog i chi – ein cynulleidfaoedd a'n hymwelwyr.

Credwn ein bod yn cydymffurfio'n llwyddiannus â'r holl safonau yn y maes yma ac, wrth wneud hynny, rydym yn darparu croeso Cymreig sy'n naturiol gynnes a phrofiad o'r radd flaenaf i'r rheini sy'n dewis cysylltu â ni neu ymweld â ni.

MEWN NIFEROEDD

Ar hyn o bryd, mae **6,980** o'n cwsmeriaid wedi nodi mai Cymraeg yw eu dewis iaith, tra bod **6,557** o bobl wedi nodi bod yn well ganddynt dderbyn gohebiaeth yn ddwyieithog.

YN YSTOD Y FLWYDDYN:



Roedd Llais, ein gŵyl gelfyddydau ryngwladol ym mis Hydref, yn cynnwys perfformiadau dwyieithog a Chymraeg fel Mared a Ffrindiau ac Adwaith. Perfformiodd artistiaid Cymraeg yn seremoni'r Wobr Gerddoriaeth Gymreig hefyd.



Mae'r rhaglen yn ein lleoliad Cabaret yn cynnwys sioeau Cymraeg a dwyieithog yn aml, fel Dragwyl, Brên. Calon. Fi., Geraint Jarman: Cofio'r Dyn ei Hun a Cabaret Gŵyl Dewi.



Yn Bocs, ein lleoliad ar gyfer profiadau ymdrochol, gwnaethom ni gyd-gynhyrchu Ôl | Haunts, profiad VR dwyieithog wedi'i osod yn Llanberis, wedi'i leisio gan Steffan Donnelly yn Gymraeg ac yn cynnwys cerddoriaeth gan artistiaid Cymraeg fel Super Furry Animals. Mae bellach wedi cael ei ddewis ar gyfer Gŵyl Ffilmiau Rhyngwladol Fenis, y gwaith realiti rhithwir cyntaf yn Gymraeg i gyrraedd y rhestr fer.



Darlledodd Radio Platfform, ein gorsaf radio dan arweiniad pobl ifanc a rhaglen hyfforddi, 309 o raglenni radio yn Gymraeg neu ddwyieithog yn ystod y flwyddyn.



Mae ein partneriaethau ysgolion gwerthfawr yn cynnwys Ysgol Garth Olwg. Ddwywaith y flwyddyn, mae disgyblion yn ymweld â Chanolfan Mileniwm Cymru i ddysgu am yrfaoedd yn y celfyddydau a sut rydyn ni'n gweithio. Cawsant wahoddiad hefyd gan ein tîm Dysgu Creadigol i sioe matinee i ysgolion o Mary Poppins o'r enw 'EduPop'. Mae hyn yn helpu disgyblion i ddysgu am swyddi ar y llwyfan a thu ôl i'r llen. Ar ôl y sioe roedd cyfle i gwrdd â rhai o'r cast a'r criw i ofyn cwestiynau am eu gyrfaoedd.

Rydyn ni hefyd wedi gweithio gydag Ysgol Hamadryad ers tair blynedd. Fel rhan o'r prosiect yma, perfformiodd y disgyblion The Wizard of Oz yn ein Stiwdio Weston o flaen teuluoedd ac athrawon.



Gwnaethom ni lansio gwasanaeth tocynnau neges destun i'n cwsmeriaid. Cafodd y Gymraeg ei hystyried o'r cychwyn cyntaf. Mae'r negeseuon yn cael eu hanfon at ein cwsmeriaid yn eu dewis iaith gyda dolen i'w tocynnau.

MEYSYDD I'W GWELLA

Ein nod yw darparu gwasanaeth ardderchog yn barhaus; fodd bynnag, rydym yn deall bod pethau'n medru mynd o'i le weithiau. Rydyn ni'n edrych yn gyson am ffyrdd o wella ein gwasanaethau.

Mae gennym ddangosfwrdd cwynion sy'n caniatáu i ni olrhain cwynion yn ôl categori. Yn ogystal â chwynion ffurfiol, mae'r dangosfwrdd yma hefyd yn olrhain adborth a gawn gan gwsmeriaid am ein darpariaeth Cymraeg; caiff y rhain eu cofnodi fel digwyddiadau yn y system. Mae hyn yn ein galluogi ni i fonitro unrhyw adborth nad yw o reidrwydd yn troi i mewn i gŵyn ffurfiol.

Eleni fe gawsom ddau gŵyn/darn o adborth am y Gymraeg:

Ym mis Awst, cwynodd cwsmer a oedd wedi dod i weld y profiad ymdrochol Monsieur Vincent i staff nad oedd opsiwn Cymraeg ar gyfer y profiad, dim ond Ffrangeg a Saesneg. Eglurwyd i'r cwsmer bod y profiad wedi cael ei greu yn Ffrainc, a dyna pam roedd opsiwn Ffrangeg, ac na fyddai'n ymarferol nac yn gost-effeithiol i gynhyrchu opsiwn Cymraeg.

Eleni rydyn ni hefyd wedi cael sylwadau am ein gohebiaeth ddwyieithog. Awgrymodd cwsmer ein bod ni'n anfon ein harolwg ar ôl sioe yn Saesneg yn unig gyda Chymraeg fel opsiwn ar wahân. Cwynodd yr un cwsmer eu bod wedi cael e-bost dwyieithog gan ein tîm Cysylltiadau Cwsmeriaid. Gwnaethom egluro ein polisi am anfon gohebiaeth ddwyieithog a sicrhau bod unrhyw ohebiaeth rydyn ni'n ei hanfon yn unol â dewis iaith cwsmer yn cael ei hanfon at y cwsmer yn Saesneg yn unig.

DAN Y CHWYDDWYDR: EIN PERTHYNAS GYDA'N TÎM

MAE'R SAFONAU GWEITHREDU YN AMLINELLU PA WASANAETHAU Y DYLEM FOD YN EU DARPARU'N DDWYIEITHOG I'N STAFF.

CREDWN EIN BOD YN CYDYMFFURFIO'N LLWYDDIANNUS Â'R HOLL SAFONAU YN Y MAES HWN, AC WRTH WNEUD HYNNY RYDYN NI'N MEDRU YMATEB I ANGHENION IAITH EIN STAFF GAN EU CEFNOGI I BARHAU I DDARPARU GWASANAETH CWSMERIAID ARDDERCHOG I'N CYNULLEIDFAOEDD YR UN PRYD.

Rydyn ni wedi partneru â'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol i ddarparu cwrs Lefel Mynediad a Lefel Sylfaen. Mae wyth aelod o staff yn cwblhau'r cwrs Mynediad, ac mae chwech yn astudio'r cwrs Sylfaen. Mae'r cyrsiau yma hefyd bellach yn cael eu cynnig i staff ysbeidiol a gwirfoddolwyr.

Mae cyrsiau Cymraeg Gwaith ar-lein ar gael i staff hefyd.

Enillodd un o'n dysgwyr wobr Dysgwr y Flwyddyn yn seremoni wobrwyo Dysgu Cymraeg.

Cynhaliwyd sesiynau 'Clonc' anffurfiol – clwb sgwrsio wythnosol lle y gall dysgwyr Cymraeg ymarfer gyda dysgwyr eraill a siaradwyr rhugl.

DAN Y CHWYDDWYDR: EIN POLISÏAU

Rydyn ni'n cydymffurfio â chyfanswm o saith safon creu polisi a chredwn ein bod yn cydymffurfio'n llwyddiannus â'u holl ofynion. Mae pob polisi Adnoddau Dynol ar gael yn ddwyieithog, ac yn ystod y cyfnod adrodd fe luniwyd sawl polisi newydd a gyda phob polisi aseswyd yr effaith gallai'r polisi ei chael ar y Gymraeg.

SGILIAU CYMRAEG

Rydym yn cofnodi'r nifer o weithwyr sydd â sgiliau Cymraeg ar ddiwedd pob blwyddyn ariannol.

Rydyn ni'n gofyn i staff hunanasesu eu sgiliau darllen, ysgrifennu, gwrando a siarad yn Gymraeg, a lefel eu sgiliau Cymraeg cyffredinol.

Ar ddiwedd mis Mawrth 2026, roedd nifer yr aelodau o staff a oedd wedi hunanasesu bod ganddynt sgiliau Cymraeg sylfaenol, sgyrsiol neu rugl fel a ganlyn:

- **CYFANSWM NIFER Y STAFF PARHAOL A CHYFNOD PENODOL = 141**
- **CYFANSWM NIFER Y STAFF PARHAOL A CHYFNOD PENODOL Â SGILIAU CYMRAEG = 74 (52% O STAFF)**
- **CYFANSWM NIFER Y STAFF DROS DRO = 176**
- **CYFANSWM NIFER Y STAFF DROS DRO Â SGILIAU CYMRAEG = 100 (57% O STAFF DROS DRO)**

RECRIWTIO

Mae pob un swydd rydym yn ei hysbysebu yn nodi bod sgiliau Cymraeg yn ddymunol. Yn y swyddi hynny lle mae gwaith yn cael ei gynhyrchu yn y Gymraeg, mae sgiliau Cymraeg yn hanfodol.

Ar gyfer 2025/26 gwnaethom ni gofnodi'r wybodaeth ganlynol am y swyddi a hysbysebwyd:

Math o swydd wag	Nifer	Sgiliau Cymraeg yn hanfodol	Sgiliau Cymraeg yn ddymunol
Rolau dros dro	8	0	8
Contractau parhaol /cyfnod penodol	48	1	47
Cyfanswm	**56**	**1**	**55**

*Noder mai dyma nifer y rolau a hysbysebwyd yn ystod y cyfnod, sy'n golygu bod sawl swydd yn gysylltiedig ag un rôl, er enghraifft barmyn.

HYFFORDDIANT

Rydym yn cynnig hyfforddiant i'n staff ar draws ystod o feysydd mewn perthynas â'r cyrsiau penodol sydd wedi'u rhestru o fewn ein safonau.

Yn ystod y cyfnod adrodd, ni wnaed unrhyw geisiadau ffurfiol am hyfforddiant yn Gymraeg ar y cyrsiau sy'n berthnasol i'r safonau.



AM RAGOR O WYBODAETH

Mae rhestr lawn o'r holl safonau sy'n berthnasol i ni ar gael ar ein **gwefan**.

Cysylltwch â ni os hoffech ragor o wybodaeth.

wmc.org.uk | **adborth@wmc.org.uk**

Mae croeso i chi gysylltu â ni yn Gymraeg.